*This document is available in English* **Eitem Agenda 5**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru Cyfarfod Blynyddol** |
| Dyddiad | **15 Gorffennaf 2024** |
| Swyddog Arweiniol | **Gareth Owens, Clerc** |
| Swyddog Cyswllt | **Gareth Owens, Clerc (01745 535286)** |
| Pwnc | **Penodi Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Cymeradwyo'r broses ar gyfer penodi Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a gwneud y penodiadau hynny ar gyfer 2024/25.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Mae anghysondeb yn y Cyfansoddiad ar hyn o bryd ynghylch sut y penodir Cadeirydd/Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio. Argymhellir bod y penodiad yn cael ei wneud gan yr Awdurdod Llawn yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Ar ôl cytuno ar y broses, mae angen i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) hefyd wneud y penodiadau ar gyfer y flwyddyn fwrdeistrefol sydd i ddod.

**ARGYMHELLION**

3 Argymhellir bod:

i) Cadeirydd/Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio yn cael ei benodi gan yr Awdurdod llawn a bod y cyfansoddiad yn cael ei newid i adlewyrchu hyn; a
ii) Bod yr Awdurdod yn penodi Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio ar gyfer 2024/25.

**CEFNDIR**

4 Mae Rhan 3 o'r cyfansoddiad yn darparu ar gyfer penodi pwyllgorau ac yn nodi bod y Pwyllgor Safonau yn penodi ei Gadeirydd ei hun; fodd bynnag, nid yw'n dweud yr un peth am y Pwyllgor Archwilio. Mae paragraff 12(2) ch yn Rhan 4 o'r cyfansoddiad yn dweud y bydd y Pwyllgor Archwilio yn penodi ei Gadeirydd a'i Ddirprwy Gadeirydd ei hun ac y bydd, wedyn, yn cyflwyno'r canlyniad i'r Awdurdod i'w gadarnhau (heb ddweud beth sy'n digwydd os na fydd yr Awdurdod yn cadarnhau'r canlyniad).

**GWYBODAETH**

5 Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, bu'n arferiad gan yr Awdurdod i benodi Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio yn y cyfarfod blynyddol. Mae hyn yn rhoi'r cyfle gorau i gynghorwyr gyfrannu at y broses gwneud penderfyniadau. Mae hefyd yn golygu bod y penodiad yn cael ei wneud cyn gynted â phosibl yn y flwyddyn fwrdeistrefol. Nid yw hyn mor bwysig bob blwyddyn, ond mae'n fuddiol iawn yn ystod blwyddyn sy'n dilyn etholiad neu pan fydd aelodaeth yr Awdurdod yn newid.

6 Os yw'r Awdurdod yn dymuno parhau i benodi'r Cadeirydd/Dirprwy Gadeirydd yna dylid dileu paragraff 12(2)ch ac ychwanegu datganiad at Reol Sefydlog 8 ac at Ran 3 o'r cyfansoddiad i nodi y bydd y penodiad cael ei wneud yn y cyfarfod blynyddol. Os yw'r Pwyllgor Archwilio am benodi ei Gadeirydd ei hun, yna dylid dileu'r angen i gyfeirio'r penderfyniad yn ôl i'r Awdurdod i'w gadarnhau gan ei fod yn creu potensial ar gyfer gwneud penderfyniadau sy'n gwrthdaro (neu'n rhwystro dewis yr Awdurdod).

7 Gan gymryd bod yr Awdurdod yn dymuno parhau i benodi'r Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd yna bydd angen iddo ofyn am enwebiadau ar gyfer y swyddi hynny.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Ystyrir nad yw'n berthnasol |
| Cyllideb | Nid yw'r broses o benodi Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio yn cael unrhyw effaith ar y gyllideb |
| Cyfreithiol | Mater i'r Awdurdod yw dewis y broses i'w mabwysiadu oherwydd nid yw'r ddeddfwriaeth yn nodi sut y dylid penodi'r Cadeirydd |
| Staffio | Ystyrir nad yw'n berthnasol |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/<br>Y Gymraeg | Ystyrir nad yw'n berthnasol |
| Risgiau | Ystyrir nad yw'n berthnasol |